**DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990**

**GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (PRIFFORDD DDIENW YN GYFAGOS I RIVER TERRACE, PORTH, RHONDDA CYNON TAF) 2023**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("Deddf 1990") i awdurdodi cau'r darn o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn, i ddarparu ar gyfer y darn o briffordd newydd a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn ac i wella'r darn o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 3 i'r Hysbysiad hwn. Mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod angen cau'r briffordd, ac nid awdurdodir ei chau ond er mwyn gwneud y datblygiad yn unol â'r caniatâd cynllunio a roddwyd o dan Ran 3 o Ddeddf 1990 gan Gyngor Rhondda Cynon Taf ar 18 Ebrill 2011 o dan y rhif cyfeirnod 10/1172/10 â diwygiad ansylweddol dyddiedig 7 Mawrth 2023 o dan y cyfeirnod 23/0110/39 a ddisgrifir yn Atodlen 4 i'r Hysbysiad hwn.

Bydd Gorchymyn Cau Priffyrdd (Priffordd Ddienw yn gyfagos i River Terrace, Porth, Rhondda Cynon Taf) 2023 ("y Gorchymyn") yn peidio â chael effaith os daw'r caniatâd cynllunio mewn cysylltiad â'r datblygiad i ben neu os caiff ei ddirymu.

Gellir archwilio copïau o'r Gorchymyn a'r plan a adneuwyd yn rhad ac am ddim yn ystod oriau agor arferol yn Llyfrgell Porth, Porth Plaza, Pontypridd Road, Porth, Rhondda Cynon Taf CF39 9PG neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1779127.

Caiff unrhyw berson a dramgwyddir gan y Gorchymyn, ar y sail:

a. nad yw o fewn pwerau'r Ddeddf; neu

b. na chydymffurfiwyd ag un o ofynion gweithdrefnol y Ddeddf;

o fewn 6 wythnos i 5 Hydref 2023, wneud cais i'r Uchel Lys at y diben hwnnw.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-cau.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**JAMES SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**TOWN AND COUNTRY PLANNING ACT 1990**

**THE STOPPING UP OF HIGHWAYS (UN-NAMED HIGHWAY ADJACENT TO RIVER TERRACE, PORTH, RHONDDA CYNON TAF) ORDER 2023**

The Welsh Ministers have made an Order under section 247 of the Town and Country Planning Act 1990 ("the 1990 Act") to authorise the stopping up of the length of highway described in Schedule 1 to this Notice, and to provide for the length of new highway described in Schedule 2 to this Notice and to improve the area of highway described in Schedule 3 to this Notice. The Welsh Ministers are satisfied that the stopping up is necessary, and it will be authorised only in order to enable the development to be carried out in accordance with planning permission granted under Part 3 of the 1990 Act by Rhondda Cynon Taf County Borough Council on 18 April 2011 with reference number 10/1172/10 with non-material amendment dated 7 March 2023 with reference 23/0110/39 described in Schedule 4 to this Notice.

The Stopping Up of Highways (Un-named Highway adjacent to River Terrace, Porth, Rhondda Cynon Taf) Order 2023 ("the Order") will cease to have effect if planning permission in respect of the development expires or is revoked.

Copies of the Order and the deposited plan may be inspected free of charge during normal opening hours at Porth Library, Porth Plaza, Pontypridd Road, Porth, Rhondda Cynon Taf CF39 9PG or may be obtained free of charge from the address below quoting reference qA1779127.

If a person is aggrieved by the Order, on the grounds that:

a. it is not within the powers of the 1990 Act; or

b. a procedural requirement of the 1990 Act has not been complied with;

that person may, within 6 weeks of 5 October 2023 make an application for the purpose to the High Court.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/stopping-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**JAMES SADDLER**
Transport
Welsh Government

**ATODLEN 1**
**(Bras amcan yw pob mesuriad)**
**Y darn o briffordd sydd i'w gau**

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd ddienw rhwng River Terrace a Pontypridd Road ym Mhorth, y mae cyfanswm ei arwynebedd yn 81 o fetrau sgwâr, a ddangosir â llinellau sebra ac y rhoddir y cyfeirnod 'A' iddo ar y plan a adneuwyd.

**ATODLEN 2**
**(Bras amcan yw pob mesuriad)**
**Disgrifiad o'r darn o briffordd newydd sydd i'w ddarparu**

Ardal afreolaidd ei siâp rhwng River Terrace a Pontypridd Road ym Mhorth, y mae cyfanswm ei harwynebedd yn 107 o fetrau sgwâr, a ddangosir â llinellau sebra ac y rhoddir y cyfeirnod 'B' iddi ar y plan a adneuwyd.

**ATODLEN 3**
**(Bras amcan yw pob mesuriad)**
**Disgrifiad o'r darn o briffordd y gwneir gwelliannau iddi sydd i'w ddarparu**

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd ddienw rhwng River Terrace a Pontypridd Road ym Mhorth, y mae cyfanswm ei arwynebedd yn 166 o fetrau sgwâr, a ddangosir â llinellau sebra ac y rhoddir y cyfeirnod 'C' iddo ar y plan a adneuwyd.

**ATODLEN 4**
**Y datblygiad**

Datblygiad sy'n cynnwys dymchwel adeilad sy'n bodoli eisoes ac adeiladu datblygiad preswyl newydd o 21 o fflatiau a'r holl waith cysylltiedig ar safle cyn-adeilad yr YMCA, Pontypridd Road, Porth CF39 9LS.

**SCHEDULE 1**
**(All measurements are approximate)**
**Length of highway to be stopped up**

An irregular shaped length of un-named highway located between River Terrace and Pontypridd Road in Porth, having a total area of 81 square metres, shown by zebra hatching and given the reference 'A' on the deposited plan.

**SCHEDULE 2**
**(All measurements are approximate)**
**Description of the length of new highway to be provided**

An irregular shaped area located between River Terrace and Pontypridd Road in Porth, having a total area of 107 square metres, shown by zebra hatching and given the reference 'B' on the deposited plan.

**SCHEDULE 3**
**(All measurements are approximate)**
**Description of the length of improved highway to be provided**

An irregular shaped length of un-named highway located between River Terrace and Pontypridd Road in Porth, having a total area of 166 square metres, shown by zebra hatching and given the reference 'C' on the deposited plan.

**SCHEDULE 4**
**The development**

Development comprising the demolition of an existing building and the construction of a new residential development of 21 apartments and all associated works at the former YMCA Building, Pontypridd Road, Porth, CF39 9LS.